

Siopa!!

“Wrth gwrs!” Dyma ymateb Dai ac Enfys Tanner i’r alwad am wirfoddolwyr i helpu’r sawl oedd yn hunan ynysu oherwydd y covid 19. Ond mae’r cyfnod hir o ynysu i dri pherson o Borth Tywyn wedi bod o fudd annisgwyl i bawb.

Ein tasg oedd gwneud eu siopa. Nawr, petawn yn onest, ar y cychwyn, rown i’n meddwl mai am ychydig wythnosau fyddai hyn! Naif iawn! Ond rhaid cyfaddef (heb swnio’n rhy hunan-gyfiawn), yn hytrach na bod yn dasg arall, daeth yn fraint cael gwneud.

Rydym yn siopa ar gyfer dwy wraig, un yn dros ei nawdeg a’r llall yn wythdeg wyth, a dyn â phroblemau iechyd. Rown i heb gwrdd â dau ohonynt o’r blaen ond roedd y llall yn hen ffrind.



Erbyn hyn, rydym wedi perffeithio’r broses. Rwyn ffonio am eu harcheb wythnosol ac archebu dros y we. Rydym yn defnyddio Tesco Clicio a Chasglu (mae siopau eraill ar gael!), casglu’r nwyddau a dyna pryd mae’r sbort yn dechrau!

Gan gynnwys ein harcheb bersonol, mae’n rhaid didoli’r nwyddau rhwng pedwar, ffonio’r tri gyda’u cyfanswm, bagio’r nwyddau a mynd â nhw draw iddyn nhw. Ond hanner y stori yw hyn. Dysgais yn gynnwys mai nad mater o adael y nwyddau a ffarwelio yw hyn o gwbl!

Rhaid sefyll ar stepen y drws a chael sgwrs ac mae hyd yn oed y rhai nad oeddwn yn adnabod cynt, wedi dod yn ffrindiau. Mae’r wraig nawdeg yn gofyn “Allwch chi ddim dod mewn?” Ond wrth gwrs, alla i ddim. Felly, cewn ni sgwrs o bellter am lawer o bethau, hapus a thrist. Dw i eisiau rhoi cwtsh iddi ond, wrth gwrs, alla i ddim. Felly rhaid ymdopi â chwts rhithiol a’r addewid o fynd allan am ginio i Ganolfan Arddio Pontarddulais pan fydd hwn i gyd drosodd!

Rydym wedi derbyn rhoddion o datws o'r ardd, potel o win a photel o Champagne! Mae fy hen ffrind hefyd am fynd â fi allan am fwyd, ac er llwyddo cadw fy mhwysau lawr yn ystod y clod, gall yr ôl-gload fod yn stori wahanol!

Felly, y diolchgarwch a'r gwerthfawrogiad mawr sy'n gwneud y profiad yn ffrind, a'r rheswm hefyd y byddwn yn hapus i barhau tra bod angen. Maen nhw wedi elwa o gael rhywun i siopa iddynt, ond dw i wedi elwa o gael dau ffrind annwyl newydd ac, ar yr un pryd, gallu helpu rhywun sydd wedi bod fel ail fam i fi.

Mae pawb ar eu hennill!